

No.

## CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams, M.R Wilkinson and M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr E. Goodjohn.

### **C147 CYHOEDDIAD -**

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac y caiff y recordiad hwn ei archifo ar gyfer gwyllo yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr 'dawelu' eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a dywedodd, pe bai cyfranogwr am siarad, y dylai godi ei law (i'w gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddog y Gwasanaethau Democraidd.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn Ddiwrnod AIDS y Byd ac roedd Cyngor Bro Morgannwg yn falch iawn o fod yn rhan o grŵp arweinyddiaeth Fast Track Cardiff and the Vale, sef sefydliad gwirfoddol arloesol a oedd yn gweithio i gael gwared â HIV a'r stigma ynghylch HIV erbyn 2030. Roedd meddygon teulu ym Mro Morgannwg wedi ymuno â chynllun peilot arloesol o'r enw 'Texting for Testing' lle byddai pawb dros 16 oed yn derbyn neges destun yn eu gwahodd i gael prawf cyfrinachol drwy'r post. Meddygon teulu yng Ngorllewin y Fro oedd y cyntaf i gymryd rhan yn y cynllun peilot ac roedd yr adborth wedi bod yn ardderchog. Anogodd unrhyw un a gafodd neges destun i gymryd rhan.

### **C148 COFNODION –**

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2022 fel cofnod cywir.

**C149 DATGANIADAU BUDDIANT –**

Y Cynghorydd L. Burnett	Roedd y buddiant yn ymwneud ag Eitem Agenda 11 - Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGYau) Cost a Rennir. Dywedodd yr Arweinydd fod ganddi fuddiant personol ond nid buddiant rhagfarnus yn y mater fel aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Roedd ganddi eithriad fel y disgrifir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau ac o'r herwydd roedd modd iddi aros yn y cyfarfod a phleidleisio ar y mater.
Y Cynghorydd B.E. Brooks	Roedd y buddiant yn ymwneud ag Eitem Agenda 11 - Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGYau) Cost a Rennir. Dywedodd y Cynghorydd Brooks fod ganddi fuddiant personol ond nid buddiant rhagfarnus yn y mater fel aelod o'r CPLIL. Roedd ganddi eithriad fel y disgrifir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau ac o'r herwydd roedd modd iddi aros yn y cyfarfod a phleidleisio ar y mater.
Y Cynghorydd R.M. Birch	Roedd y buddiant yn ymwneud ag Eitem Agenda 11 - Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGYau) Cost a Rennir. Dywedodd y Cynghorydd Birch fod ganddi fuddiant personol ond nid buddiant rhagfarnus yn y mater fel aelod o'r CPLIL. Roedd ganddi eithriad fel y disgrifir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau ac o'r herwydd roedd modd iddi aros yn y cyfarfod a phleidleisio ar y mater.
Y Cynghorydd M.R. Wilson	Roedd y buddiant yn ymwneud ag Eitem Agenda 11 - Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGYau) Cost a Rennir. Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod ganddo fuddiant personol ond nid buddiant rhagfarnus yn y mater fel aelod o'r CPLIL. Roedd ganddo eithriad fel y disgrifir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau ac o'r herwydd roedd modd iddo aros yn y cyfarfod a phleidleisio ar y mater.
Y Cynghorydd R. Sivagnanam	Roedd y buddiant yn ymwneud ag Eitem Agenda 11 - Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGYau) Cost a Rennir. Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod ganddi fuddiant personol ond nid buddiant rhagfarnus yn y mater fel aelod o'r CPLIL. Roedd ganddi eithriad fel y disgrifir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau ac o'r herwydd roedd modd iddi aros yn y cyfarfod a phleidleisio ar y mater.

No.

**C150 DIWEDDARIAD CHWARTER 2: AMSERLEN RHAGLEN WAITH  
ARCHWILIO CYMRU 2022/23 – CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –**

Cyflwynwyd cyfeiriad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o 24 Hydref 2022.

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a nodi'r cynnydd a wnaed ar Raglen Waith Archwilio Bro Morgannwg hyd at Chwarter 2 ac roedden nhw wedi nodi'r adroddiad.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD - Nodi sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C151 DIWEDDARIAD CHWARTER 1 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL  
(CYF) –**

Cyflwynwyd cyfeiriad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o 24 Hydref 2022.

Roedd argymhelliad (2) adroddiad y Cabinet wedi argymhell dileu'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a risgiau System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC) ac argymhell cynnwys risg Costau Byw ac ail-fframio'r risg Cynaliadwyedd Amgylcheddol i Brosiect Sero ar y Gofrestr.

Penderfynodd y Pwyllgor gadw'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ac roedd wedi argymhell i'r Cabinet ddileu risg SWGCC o'r Gofrestr, derbyn cynnwys risg Costau Byw ac ail-fframio'r risg Cynaliadwyedd Amgylcheddol i Brosiect Sero ar y Gofrestr.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo dileu risg SWGCC o'r Gofrestr, derbyn cynnwys risg Costau Byw ac ail-fframio'r risg Cynaliadwyedd Amgylcheddol i Brosiect Sero ar y Gofrestr.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C152. STRATEGAETH RHAGLEN CYMORTH TAI (CYF) –**

Cyflwynwyd cyfeiriad y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel o 7 Tachwedd 2022.

No.

Roedd y Pwyllgor wedi trafod cost darparu llety Gwely a Brecwast yn dilyn y cynnydd aruthrol mewn digartrefedd cydnabyddedig yn ystod y pandemig. Roedd trafodaeth ynglŷn â defnyddio llety modiwlaidd ac ynglŷn â Bro Morgannwg yn defnyddio unedau modiwlaidd fel y rheiny ar Court Road.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai ddrafft.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

### **C153. STRATEGAETH ARIANNOL 2023/24 A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG ADNEWYDDU (CYF) -**

Cyflwynwyd cyfeiriad y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau o 16 Tachwedd 2022.

Roedd yr Arweinydd wedi mynychu'r cyfarfod a chyfeirio at nifer y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor ar Dudalennau 2 a 3 y cyfeiriad. O ran lliniaru'r defnydd o ymgynghorwyr allanol, dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn rhagweld pa sgiliau y gallai fod eu hangen a sut i hyfforddi staff yn unol â hynny. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau diweddar ar y gyllideb ac, wrth edrych ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft ar gyfer y flwyddyn nesaf, un o'r themâu oedd gwydnwch sefydliadol. Ar ôl 12 mlynedd o lymder, roedd nifer y gweithwyr yn yr Awdurdod yn annigonol, ac o'r herwydd ar brydiau bu angen dod â chapasiti ychwanegol i mewn yn ôl yr angen. Roedd staff yn cael cynnig cyfleoedd i feithrin sgiliau mewn meysydd penodol, ond o bryd i'w gilydd roedd angen dod ag ymgynghorwyr allanol i mewn am gyfnodau byrdymor.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – Bwydo penderfyniadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i Weithgor y Gyllideb fel rhan o drafodaethau ar gyllideb y flwyddyn nesaf.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

### **C154 GRŴP CYNGHORI ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Grŵp Ymgynghorol Arfordir Treftadaeth Morgannwg a gynhaliwyd ar 30 Medi 2022 fel y'u nodwyd yn yr agenda.

Fel rhan o'r drafodaeth ar waith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, roedd y Grŵp Ymgynghorol wedi gofyn i'r Arweinydd gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru gan ofyn am arian ychwanegol i helpu gyda'r gwaith o gynnal a chadw'r Llwybr Arfordirol yn ardal Bro Morgannwg.

Dywedodd yr Arweinydd fod arian wedi'i gael gan ffynonellau fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ond roedd yn hapus i ysgrifennu at y Gweinidog er mwyn tynnu sylw at lwyddiant yr Arfordir Treftadaeth a'i wahodd hefyd i ymweld.

**BENDERFYNU -**

(1) Nodi cofnodion cyfarfod Grŵp Ymgynghorol Arfordir Treftadaeth Morgannwg a gynhaliwyd ar 30 Medi 2022.

(2) Y byddai'r Arweinydd yn ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn gofyn am arian ychwanegol i helpu i gynnal a chadw'r Llwybr Arfordirol yn ardal Bro Morgannwg, i dynnu sylw at lwyddiant yr Arfordir Treftadaeth a hefyd i wahodd y Gweinidog i ymweld.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1 a 2) Wrth nodi'r cofnodion.

### **C155 FFORWM YMGYNGHOROL AR Y CYD –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghori ar y Cyd a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2022 fel y'u nodwyd yn yr agenda.

**PENDERFYNWYD –** Nodi cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghori ar y Cyd a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2022.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

### **C156 PWYLLGOR CYNGHORI BAE CAERDYDD –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022 fel y'u nodwyd yn yr agenda.

Roedd y Cyngorydd Wilson newydd ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor. Dywedodd fod cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynllunio ar gyfer mis Ionawr a

No.

mis Mawrth 2023 gydag ymweliad posib â'r Bae yn ymwneud ag amodau amgylcheddol.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

**C157 CYNLLUN CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL AR Y CYD (CGY) (AG/BA) (PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn am ddiwygiad i'r disgrisiwn Pensiynau er mwyn gallu cyflwyno cynllun CGYau Cost a Rennir. Roedd y cynllun CGYau safonol yn cael ei redeg gan Prudential, a oedd wedi cadarnhau y gallai hyn nawr gael ei ymestyn i'r cynllun cost a rennir.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at Baragraff 5.1 yr adroddiad a oedd yn cyfeirio at yr ardoll iechyd a gofal cymdeithasol 1.25%. Roedd hyn wedi ei wyrdroi ers i'r adroddiad gael ei baratoi a oedd yn golygu bod yr arbedion yn 5.3 a 5.4 wedi'u gor-ddweud.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

**BENDERFYNU -**

- (1) Mabwysiadu'r Cynllun CGYau Cost a Rennir i alluogi gweithwyr sy'n aelodau o'r CPLIL wneud cais am CGYau drwy ildio cyflog yn amodol ar fodloni meini prawf y cynllun.
- (2) Cymeradwyo'r diwygiad i Bwerau Disgrisiynol y CPLIL dan Reoliadau CPLIL 2014 (Atodiad A yr adroddiad).
- (3) Hepgor Rheolau Sefydlog Contractau er mwyn galluogi dyfarnu'r contract i AVC Wise am 3 blynedd.
- (3) Awdurdodi'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i weithredu'r contract gydag AVC Wise.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Byddai cymeradwyo mabwysiadu'r cynllun o fudd sylweddol i Gynghorwyr a staff a oedd yn aelodau o'r CPLIL a byddai hefyd yn arwain at arbedion mawr mewn Yswiriant Gwladol i'r Cyngor.
- (2) Er mwyn sicrhau bod y polisi'n gyfredol.
- (3) Er mwyn dyfarnu contract yn uniongyrchol i AVC Wise.
- (4) Er mwyn gweithredu'r contract y cytunwyd arno.

**C158 ANHEDDAU GWAG Y DRETH GYNGOR: 2023/24 (AG/BA)  
(PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd ail-gadarnhau'r penderfyniad blaenorol i beidio â chaniatáu unrhyw ostyngiad yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo gwag ac ail gartrefi wedi'u dodrefnu ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Roedd yr adroddiad yn cynnig y dylai'r Cyngor ymgynghori ar godi premiwm Treth Gyngor yn 2023/24 ar gyfer eiddo gwag hirdymor ac yn 2024/25 ar gyfer ail gartrefi.

Roedd hyn yn unol ag amcan y Cyngor i gynyddu'r cyflenwad o dai ym Mro Morgannwg. Yr angen blyneddol am dai fforddiadwy ym Mro Morgannwg rhwng 2021 a 2026 oedd 1,205 o anheddau.

Gofynnodd yr Arweinydd am ddiwygio Argymhelliad (2) i ddefnyddio paragraff 15.14.2(ii) Cyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn penderfyniadau brys) er mwyn dechrau'r ymgynghoriad ar unwaith, a gytunwyd.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

**BENDERFYNU -**

- (1) Ailgadarnhau'r penderfyniad blaenorol i beidio â chaniatáu unrhyw ostyngiad yn 2023/24 mewn perthynas ag anheddau gwag fel y diffinnir yn nosbarthiadau A, B ac C Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel y'u diwygiwyd.
- (2) Awdurdodi defnyddio paragraff 15.14.2(ii) Cyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn penderfyniadau brys) er mwyn dechrau ymgynghoriad ar unwaith a galluogi'r Cabinet i bennu bod y Cyngor yn dechrau cyfnod o ymgynghori fel y

No.

diffinnir yn Adrannau 12A a 12B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, fel y mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ynghylch y canlynol:

- Codi premiwm Treth Gyngor yn 2023/24 ar gyfer eiddo gwag hirdymor;
- Codi premiwm Treth Gyngor yn 2024/25 ar gyfer ail gartrefi.

(3) Anfon yr adroddiad ymlaen i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried.

#### Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Mae angen i'r Cyngor bennu ei bolisi ar ostyngiadau mewn perthynas ag anheddau gwag fel y diffinnir yn nosbarthiadau A, B ac C Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 bob blwyddyn.

(2) Mae angen i'r Cyngor bennu ei bolisi ar gyflwyno premiymau ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor fel y diffinnir yn Adrannau 12A a 12B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, fel y mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

(3) Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Craffu perthnasol yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses ymgynghori.

### **C159 CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH GYNGOR (AG/BA) (PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd nodi'r disgrisiynau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor i'w hystyried wrth ail-fabwysiadu Cynllun Cenedlaethol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2023/2024.

Cynigiodd yr adroddiad y dylai'r Cabinet argymhell i'r Cyngor Llawn ail-fabwysiadu Cynllun Cenedlaethol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2023/2024 ynghyd â'r disgrisiynau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

#### **BENDERFYNU -**

(1) Bod y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor Llawn y dylid mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) OS 2013/3029 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2014 OS 2014/66.

(2) Adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau i Reoliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru yn y cynllun.



No.

- (3) Mabwysiadu'r cynllun cenedlaethol gyda'r disgresiynau canlynol:-
- Dylai'r Cyngor barhau i ganiatáu Taliadau Estynedig hyd at uchafswm o 4 wythnos.
  - Dylai'r Cyngor barhau i ddiystyru pensiynau Gweddwon Rhyfel ac Anabledd Rhyfel wrth asesu incwm ar gyfer Gostyngiad y Dreth Gyngor.
  - Dylai'r Cyngor barhau i ganiatáu Gostyngiadau wedi'u Ôl-ddyddio am gyfnod o hyd at 26 wythnos.
- (4) Awdurdodi defnyddio paragraff 15.14.2(ii) Cyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn penderfyniadau brys) er mwyn i'r adroddiad gael ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr 2022.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1-3) Er mwyn galluogi'r Cyngor i gymeradwyo Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2023 ac i'r Cynllun fod ar waith i'w weithredu o 1 Ebrill 2023.
- (4) Er mwyn ystyried yr adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

**C160 PRECEPT DYDDIADAU TALIAD 2023/24 (AG/BA) (PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cymeradwyo'r dyddiadau ar gyfer talu praeseptau i Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned yn ardal Bro Morgannwg.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

**BENDERFYNU -**

- (1) Talu'r hyn sy'n ddyledus i Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru mewn 12 rhandaliad cyfartal ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis.
- (2) Talu'r hyn sy'n ddyledus i Gynghorau Tref a Chymuned mewn 3 rhandaliad cyfartal ar ddiwrnodau gwaith olaf mis Ebrill, mis Awst a mis Rhagfyr 2023.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1 a 2) Penderfynwyd ar y dyddiadau er mwyn gwneud y gorau o lif arian parod y Cyngor yn unol â'r rheoliadau.

**C161 LEFEL 2 SIARTER TEITHIO IACH BWRDD GWASANAETHAU  
CYHOEDDUS BRO MORGANNWG (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi diweddariad i'r Cabinet ar Siarter Teithio'n Iach Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg a cheisio cymeradwyaeth i'r Cyngor lofnodi Siarter Lefel Dau.

Datblygodd BGC Bro Morgannwg y Siarter Teithio'n Iach i Staff gychwynnol mewn partneriaeth â Thim Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro.

Cofrestrodd y Cyngor i Siarter Teithio'n Iach Lefel 1 yn 2019, roedd Siarter Lefel 1 yn cynnwys 14 ymrwymiad ar gyfer 2019-22 o ran trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, cyfathrebu ac arweinyddiaeth, gweithio ystwyth a cherbydau allyriadau isel iawn.

Roedd cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn y 14 ymrwymiad hyn gyda phob un yn cael eu bodloni erbyn diwedd y dyddiad cau ym mis Hydref 2022.

Roedd cymeradwyaeth yn cael ei geisio i gofrestru i Siarter Teithio'n Iach 'Lefel 2', sy'n nodi mwy o ofynion i'w gweithredu dros ddwy flynedd.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

**BENDERFYNU** – y dylai'r Cyngor ymrwmo i Siarter Teithio'n Iach Lefel 2 a gweithio gyda phartneriaid y BGC i hyrwyddo opsiynau teithio iachach a chynaliadwy.

Y rheswm dros y penderfyniad

Galluogi Cyngor Bro Morgannwg i gymryd rhan yng ngwaith y BGC wrth hwyluso ac annog opsiynau teithio iach a chynaliadwy.

**C162 CRONFA GRANT CYMUNEDAU CRYF 2020-2025 (DA/LC) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad a diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Grant Cymunedau Cryf (GCC) yn y flwyddyn gyfredol a gofynnodd am gymeradwyaeth i ddyfarnu arian i'r trydydd cylch o geisiadau i'r Brif Gronfa Grant.

Dywedodd y Cynghorydd Brooks fod prosiectau â chymorth yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd ac ystod y gwasanaethau sydd ar gael i bobl a chymunedau ym Mro Morgannwg.

No.

Dyweddodd y Cyngorydd Wilson mai'r awydd oedd creu cymunedau mwy cynaliadwy a chryf ac roedd y math hwn o arian grant yn cefnogi hynny. Dywedodd ei bod yn broses ymgeisio galed gan ei bod yn arian cyhoeddus ond gwnaeth annog ymgeiswyr posib i ymgeisio. Roedd swyddogion ar gael i gefnogi ymgeiswyr drwy'r broses pe bai angen a gwnaeth annog ceisiadau o bob rhan o Fro Morgannwg.

Dyweddodd yr Arweinydd fod £837k mewn arian grant wedi'i ddsbarthu i gefnogi sefydliadau a grwpiau lleol ers 2017, a diolchodd i'r tîm Cymunedau Creadigol am roi cyngor a chefnogaeth ynghylch y broses.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

#### BENDERFYNU -

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau, cymeradwyo arian grant o hyd at £146,860.57 a chymeradwyo argymhellion y Panel Gwerthuso fel yr amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo "dwyn ymlaen" £29,991.43 heb ei ymrwymo o'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf eleni er mwyn ychwanegu at yr arian sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

#### Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn dyfarnu Arian Grant Cymunedau Cryf i gynigion fel yr amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor a chwmpas y cynllun.

(2) Er mwyn sicrhau bod cronfeydd heb eu dyrannu yn y flwyddyn gyfredol yn cael eu diogelu ar gyfer Grantiau Cymunedau Cryf yn 2023/2024.